



Cyfathrebu Cymdeithasol

Deall Cyfathrebu Cymdeithasol

Cyfathrebu cymdeithasol ydi sut yr ydym ni'n **deall, defnyddio ac ymateb i iaith a rhyngweithiad cymdeithasol.**

Mae'n seiliedig ar sgiliau allweddol megis:

- **Sylw ar y Cyd (rhannu ffocws gydag eraill)**
- **Iaith a dealltwriaeth**
- **Dirnad Persbectif (deall barn a theimladau pobl eraill)**



Yn achos dysgwyr niwrowahanol, mae gwahaniaethau o ran cyfathrebu cymdeithasol yn gyffredin, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd â chyflyrau megis awtistiaeth, ADHD, neu anhwylder datblygu iaith.

Mae hyn yn golygu y gall disgyblion brofi cyfathrebu a rhyngweithio mewn **ffyrdd gwahanol**, yn hytrach na bod un ffordd "gywir" o gyfathrebu.

Sut all gwahaniaethau o ran cyfathrebu cymdeithasol ddod i'r amlwg yn yr ysgol?

Efallai y byddwch chi'n sylw fod disgybl:

- **Yn ei chael hi'n anodd deall disgwyliadau neu gyfarwyddiadau ar lafar**
- **Angen mwy o amser i brosesu iaith ac ymateb**
- **Yn cael trafferth gyda dirnad persbectif neu ddeall safbwyntiau pobl eraill**
- **Yn ei chael hi'n anodd rhannu sylw neu rhyngweithio mewn grŵp**
- **Yn ei chael hi'n anodd cychwyn neu gynnal rhyngweithiad**

Yn aml, mae'r gwahaniaethau hyn yn gysylltiedig â:

- **Chyflymder prosesu**
- **Gweithrediad goruchwyliol**
- **Rheoli synhwyrau**

Mae'n bwysig cydnabod bod y gwahaniaethau hyn yn rhan o **broffil niwrowahanol unigol** disgybl, a ddisgrifir weithiau fel "proffil pigog" lle mae cryfderau ac anghenion yn amrywio o un maes i'r llall.



Cyfathrebu Cymdeithasol

Pam mae hyn yn bwysig

Gall gwahaniaethau o ran cyfathrebu cymdeithasol effeithio ar:

- **Fynediad at ddysgu a chyfarwyddiadau**
- **Cyfranogiad mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth**
- **Perthnasoedd gyda staff a chyfoedion**
- **Ymgysylltiad a rheoli emosiynau**

Os nad yw anghenion yn cael eu deall neu eu cefnogi, gall hyn gyfrannu at:

- **Golli rheolaeth neu ymddygiad heriol**
- **Llai o gyfranogiad**
- **Risg uwch o waharddiad neu absenoldeb**

Yn achos rhai dysgwyr, gall teimlo eu bod yn cael eu camddeall neu nad oes modd iddynt gyfathrebu'n effeithiol effeithio ar eu **hymdeimlad o berthyn yn yr ysgol**.

Strategaethau Ymarferol ar gyfer Staff Addysgu

Deall a Chynllunio

- Defnyddiwch gylch Asesu–Cynllunio–Gwneud–Adolygu i ddeall proffil cyfathrebu'r disgybl.
- Nodwch gryfderau yn ogystal â meysydd o angen.
- Sicrhewch fod cynlluniau cymorth yn gyson ymhlith staff.

Cyfathrebu ac Iaith


- Defnyddiwch iaith glir a phlaen
- Osgowch gymhlethdod diangen neu ormod o gyfarwyddiadau ar unwaith
- Rhannwch wybodaeth yn ddarnau llai
- Gwiriwch ddealltwriaeth yn hytrach na'i gymryd yn ganiataol

Gall defnyddio iaith uniongyrchol a chefnogol helpu disgyblion i gael mynediad at dasgau yn fwy effeithiol.


Prosesu ac Ymateb

- Caniatewch amser ychwanegol ar gyfer prosesu cyfarwyddiadau ac ymatebion
- Dylech ymatal rhag rhoi disgyblion dan bwysau yn y fan a'r lle
- Rhowch amser iddynt feddwl cyn disgwyl ateb

Efallai y bydd angen llawer mwy o amser ar ddysgwyr niwrowahanol i brosesu iaith a gwybodaeth.



Cyfathrebu Cymdeithasol



Cefnogi Rhyngweithio a Dealltwriaeth

- Dylech gefnogi sylw ar y cyd trwy weithgareddau a rennir.
- Modelwch a datblygwch rhyngweithiad yn ôl yr angen.
- Cefnogwch brosesau dirnad persbectif drwy esboniad a thrafodaeth.
- Defnyddiwch ddiddordebau disgybl i annog ymgysylltiad.

Addasu Dulliau Addysgu

Gall addasiadau bychain wneud gwahaniaeth mawr:

- Addaswch y cyflymder – caniatewch fwy o amser
- Addaswch y swmp – peidiwch â rhannu cymaint o wybodaeth
- Addaswch y cymhlethdod – dylech symleiddio cyfarwyddiadau
- Rhannwch dasgau yn gamau llai er mwyn cefnogi dealltwriaeth
- Rhowch flaenoriaeth i'r pwyntiau dysgu allweddol

Yn ogystal, dylech:

- Newid sut y caiff tasgau eu cyflwyno
- Caniatáu ffyrdd gwahanol i ddisgyblion ymateb neu gwblhau gwaith
- Defnyddio cymhorthion ychwanegol megis cynlluniau seddi neu weledol

Amgylchedd a Pherthnasoedd

- Dylech feithrin perthnasoedd cadarn a chefnogol gyda disgyblion
- Sefydlwch ymdeimlad o berthyn a diogelwch
- Defnyddiwch ymarfer perthynol i gefnogi ymgysylltiad

Gall perthnasoedd cadarn leihau rhwystrau o ran cyfathrebu a chefnogi cyfranogiad.

Ymwybyddiaeth Synhwyrdd a Rheoleiddio

- Cofiwch fod modd i wahaniaethau synhwyrdd effeithio ar gyfathrebu
- Cefnogwch y disgyblion i aros o fewn eu ffenestr oddefgarwch
- Dylech addasu'r amgylchedd yn ôl yr angen

Cyfathrebu Cymdeithasol

Beth i'w Osgoi

- Defnyddio iaith amwys, anuniongyrchol neu rhy gymhleth
- Disgwyl i'r disgyblion brosesu ac ymateb yn gyflym
- Tybio bod diffyg ymgysylltiad yn fwriadol.
- Gorrwytho disgyblion hefo gormod o wybodaeth ar yr un pryd
- Canolbwyntio ar eu hanawsterau yn unig, yn hytrach na chryfderau



Crynodeb

- Mae cyfathrebu cymdeithasol yn faes gwahaniaeth allweddol i lawer o ddisgyblion niwrowahanol
- Mae iaith, prosesu, gweithrediad gweithredol ac anghenion synhwyrdd yn dylanwadu arno
- Bydd gan bob disgybl broffil unigryw o gryfderau ac anghenion
- Gall dulliau clir, strwythuredig a hyblyg wella mynediad ac ymgysylltiad yn sylweddol
- Mae perthnasoedd cadarn ac ymdeimlad o berthyn yn ganolog i gefnogaeth effeithiol

Cwestiynau i'w Hystyried

- Pa mor glir a hygyrch ydw i'n cyfathrebu?
- Ydw i'n caniatáu digon o amser ar gyfer prosesu ac ymateb?
- Sut ydw i'n cefnogi rhyngweithio a sylw ar y cyd?
- Pa addasiadau y gallwn ni eu gwneud er mwyn gwella mynediad?
- Sut ydw i'n meithrin perthnasoedd ac yn cefnogi ymdeimlad o berthyn?